PROFFIL RÔL

Teitl y Rôl:	Swyddog Rheoli Data/Mynegeiwr
Graddfa:	Graddfa 5/6
Yn atebol i:	Rheoli Data/Goruchwyliwr Mynegeio
Yn gyfrifol am:	Dim Cyfrifoldebau Goruchwylio
Cydgysylltu â:	Swyddogion yr Heddlu, Staff yr Heddlu, y Cyhoedd, Sefydliadau Allanol, Asiantaethau a Phartneriaethau
Lefel Fetio Ofynnol:	MV/SC/DV
Dyddiad Cyhoeddi:	Medi 2022

Diben y Rôl	Mynegeio cudd-wybodaeth a gwybodaeth yn unol â Safonau Cenedlaethol, gan ddarparu Adolygu, Cadw a Gwaredu (RRD) a dyblygu'r gwasanaeth ar ran Rhwydwaith Plismona Gwrthderfysgaeth i fodloni'r gofynion deddfwriaethol. Darparu cyngor ac arweiniad arbenigol mewn perthynas â'r gwasanaethau, nodi bygythiadau posibl, gwybodaeth a bylchau cudd-wybodaeth,a all liniaru risg.
Prif Gyfrifoldebau	**Cyngor ac Arweiniad** • Rhoi cyngor ac arweiniad i gwsmeriaid dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac yn electronig, ar feysydd gwaith cysylltiedig gan ddilyn gweithdrefnau safonol • Ymchwilio i broblem(au)/mater(ion) a darparu ateb(ion) priodol • Rhoi digon o gymorth i ddefnyddwyr yn ôl y cyfarwyddyd • Gall gynnwys archwilio ac adolygu sefyllfaoedd o ran cydymffurfio • Gall gynnwys rhyngweithio â grwpiau cymunedol ac aelodau o'r cyhoedd a darparu gwybodaeth iddynt yn rhagweithiol • Gall gynnwys cymryd camau gweithredu priodol a/neu roi cyngor ar hynny o fewn y cylch gwaith • Gall gynnwys ymateb i ymholiadau a uwchgyfeirir gan aelodau'r cyhoedd **Trefnu/Cynllunio** • Cynllunio a threfnu gwaith unigol a bennwyd ar eich cyfer • Cydweithio ag aelodau tîm eraill • Cyfrannu at waith cynllunio pwnc/gweithredol/uned adrannol • Datblygu cynlluniau is-brosiect a'u rhoi ar waith • Datblygu camau gweithredu sy'n cwmpasu'r byrdymor a'r tymor canolig a chytuno arnynt • Trefnu ac amserlennu digwyddiadau/cyfarfodydd yn ôl cyfarwyddyd **Rheoli Pobl** • Gall gynnwys monitro a dyrannu llwyth gwaith a monitro perfformiad • Hyfforddi a mentora eraill • Sicrhau ansawdd gwaith y tîm **Prosesau** • Addasu a mireinio gweithdrefnau ac arferion gwaith yn eich maes eich hun • Dilyn, creu, diwygio, gwella a sicrhau ansawdd prosesau i'w defnyddio gennych chi ac eraill

	• Sicrhau y caiff trafodion amrywiol eu prosesu
	Ymchwil/Ymchwilio
	• Ymchwilio i ddeddfwriaeth/materion cymhleth/sensitif/dadleuol pwnc penodol • Cyflwyno argymhellion • Casglu a dadansoddi gwybodaeth a darparu canlyniadau i'w dadansoddi ymhellach • Cynnal ymchwiliadau i broblemau, ymholiadau a/neu sefyllfaoedd perthnasol • Rhoi sylw i ymholiadau yn ôl cyfarwyddyd
	Rheoli Risg a Chydymffurfiaeth Gyfreithiol
	• Nodi risgiau o fewn eich cylch gwaith eich hun • Nodi rheolaethau i liniaru risgiau a rhoi gwybod amdanynt • Cydymffurfio â deddfwriaeth
	Gwasanaeth Cwsmeriaid a Chynrychioli • Cyflwyno delwedd a gwasanaeth cadarnhaol i gwsmeriaid mewnol ac allanol • Mae'n ofynnol i unigolion ymgysylltu'n effeithiol â chwsmeriaid mewnol ac allanol ar bob lefel er mwyn darparu gwasanaeth o safon uchel • Cynnal cyfrinachedd mewn perthynas â materion diogelu data a safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu (MOPI)
	Yn ogystal, bydd yn rhaid i ddeiliad y swydd fod yn barod i ymgymryd â'r cyfryw ddyletswyddau ychwanegol a all godi yn sgil amgylchiadau sy'n newid, ond nad ydynt, o reidrwydd, yn newid natur gyffredinol na lefel cyfrifoldeb y swydd.
Cymwysterau	**Hanfodol** • Rhaid meddu ar lefel dda o addysg hyd at lefel TGAU (A-C) o leiaf, sy'n cynnwys Mathemateg a Saesneg, neu allu dangos sgiliau a galluoedd cyfatebol. • Mynychu a phasio'r cwrs Safonau a Gweithdrefnau Mynegeio Cenedlaethol a'r Rhaglen Cudd-wybodaeth Gyffredinol Genedlaethol ar ôl cael eich penodi. • Mynychu a phasio'r cwrs Annyblygu ar ôl cael eich penodi. **Dymunol** • Meddu ar gymhwyster Lefel HNC o leiaf neu gymhwyster cyfatebol.
Sgiliau	**Hanfodol** • Rhaid meddu ar sgiliau cyfrifiadurol a'r gallu i ddefnyddio rhaglenni Microsoft. • Rhaid gallu cofnodi data yn gyflym ac yn gywir, gan dalu sylw gofalus i fanylion. • Rhaid meddu ar sgiliau llunio adroddiadau. • Rhaid gallu asesu, dehongli a chrynhoi gwybodaeth, yn enwedig gwybodaeth sensitif. **Dymunol** • Cymraeg Iaith Lefel 2 – Yn gallu deall hanfod sgwrs, cyfleu gwybodaeth sylfaenol, cyfrannu at gyfarfodydd, trosglwyddo galwadau ffôn ac ymateb i geisiadau syml yn Gymraeg. Hefyd, y gallu i gyflwyno eich hun a phobl eraill yn ôl enw, rôl a lleoliad/sefydliad. • Ymchwilio i systemau perthnasol mewn perthynas â chasglu cudd-

	wybodaeth. • Y gallu i weithredu systemau cenedlaethol eraill. • Rhaid gallu cyd-destunoli dealltwriaeth o waith y meysydd busnes Gwrthderfysgaeth ac Eithafiaeth Ddomestig, gan ymgorffori blaenoriaethau presennol ac egluro dulliau gwerthuso ffynonellau, dulliau gwerthuso gwybodaeth a chodau trin, megis 5x5x5 and 3x5x2(+2).
Gwybodaeth	**Hanfodol** • Rhaid meddu ar wybodaeth am ddeddfwriaeth ategol megis Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu (MOPI), Llys Hawliau Dynol Ewrop (ECHR), y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FoIA) a'r Ddeddf Diogelu Data. • Rhaid meddu ar wybodaeth am egwyddorion Cynllun Marciau Diogelu'r Llywodraeth (GPMS), Dosbarthiad Diogelwch y Llywodraeth (GSC) a'r ffordd y caiff ei ddefnyddio mewn perthynas â chynnyrch cudd-wybodaeth. **Dymunol** • Gwybodaeth o fewn y Rhwydwaith Plismona Gwrthderfysgaeth Cenedlaethol. • Gwybodaeth am y Safonau Cenedlaethol o Reoli Cudd-wybodaeth (NSIM). • Gwybodaeth am egwyddorion y Model Cudd-wybodaeth Cenedlaethol a'r ffordd y caiff ei ddefnyddio mewn perthynas â chudd-wybodaeth. • Gwybodaeth am Strategaeth Gwrthderfysgaeth Genedlaethol CONTEST II.
Rhinweddau Personol	**Gwasanaethu'r Cyhoedd** Dangos cred wirioneddol mewn gwasanaethu'r cyhoedd, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd ac a fydd o'r budd mwyaf iddynt Deall disgwyliadau, pryderon ac anghenion newidiol cymunedau gwahanol a cheisio mynd i'r afael â nhw Meithrin hyder y cyhoedd drwy siarad â phobl mewn cymunedau lleol er mwyn ystyried eu safbwyntiau a chwalu'r rhwystrau rhyngddyn nhw a'r heddlu Deall effaith plismona ar gymunedau gwahanol a'r buddiannau iddynt a nodi'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau iddynt Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill er mwyn darparu'r gwasanaeth cyffredinol gorau posibl i'r cyhoedd **Proffesiynoldeb** Gweithredu ag uniondeb, yn unol â gwerthoedd Gwasanaeth yr Heddlu Cymryd perchenogaeth wrth ddatrys problemau, gan ddangos dewrder a gwydnwch wrth ymdrin â sefyllfaoedd anodd a allai fod yn ymfflamychol Gweithredu mewn ffordd flaengar i fynd i'r afael â materion, gan ddangos agwedd gref at waith a gwneud ymdrech ychwanegol pan fo angen Cynnal safonau proffesiynol, gan fod yn onest a moesegol, a herio ymddygiad amhroffesiynol neu wahaniaethol Bod yn bwyllog ac yn broffesiynol dan bwysau, gan leddfu gwrthdaro, a bod yn barod i gamu ymlaen a chymryd rheolaeth pan fo angen. **Yn agored i newid** Bod yn gadarnhaol ynghylch newid, gan ymateb mewn modd hyblyg ac addasu i ffyrdd gwahanol o weithio

	Dod o hyd i ffyrdd gwell, mwy costeffeithiol o wneud pethau, gan wneud awgrymiadau ar gyfer newid Datrys problemau mewn ffordd arloesol a chreadigol Gofyn am adborth a gweithredu arno, gan ddysgu o brofiad a meithrin eich sgiliau a'ch gwybodaeth broffesiynol eich hun **Darparu Gwasanaethau** Deall amcanion a blaenoriaethau'r sefydliad a'r ffordd y mae gwaith yn cyd-fynd â'r rhain Cynllunio a threfnu tasgau'n effeithiol, gan gyflawni canlyniadau mewn ffordd strwythuredig a threfnus Rheoli cyfres o dasgau'n effeithiol drwy ystyried pethau ymlaen llaw, blaenoriaethu a rheoli amser yn dda Canolbwyntio ar y canlyniadau i'w cyflawni, gan weithio'n gyflym ac yn gywir a gofyn am arweiniad pan fo'n briodol **Gwneud Penderfyniadau** Casglu, dilysu ac asesu'r holl wybodaeth briodol sydd ar gael i feithrin dealltwriaeth gywir o sefyllfaoedd Ystyried amrywiaeth o opsiynau posibl cyn gwneud penderfyniadau clir ac amserol y gellir eu cyfiawnhau Adolygu penderfyniadau, o ystyried gwybodaeth newydd ac amgylchiadau newidiol Cydbwyso risgiau, costau a buddiannau, gan ystyried effaith ehangach penderfyniadau Arfer disgresiwn a barn broffesiynol, gan sicrhau bod camau gweithredu a phenderfyniadau yn gymesur ac er budd y cyhoedd **Cydweithio ag Eraill** Cydweithio ag eraill er mwyn cyflawni pethau, gan fod yn barod i roi help a chymorth i gydweithwyr Yn hawdd mynd atoch, gan ddatblygu cydberthnasau gwaith cadarnhaol Gwrando'n ofalus a gofyn cwestiynau er mwyn sicrhau dealltwriaeth, gan leisio eich barn eich hun yn gadarnhaol ac yn adeiladol Darbwyllo pobl drwy bwysleisio manteision dull gweithredu penodol, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt a rheoli eu disgwyliadau Bod yn foesgar, yn gwrtais ac yn ystyriol, gan ddangos empathi a thosturi Trin pobl fel unigolion, gan fynd i'r afael â'u hanghenion a'u pryderon penodol Trin pobl â pharch ac urddas, gan ymdrin â nhw'n deg a heb ragfarn drwy beidio â beirniadu, ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau.

Rhaid i bob unigolyn yn Heddlu De Cymru ddangos y rhinweddau i allu gweithio mewn sefydliad â grwpiau lleiafrifol a darparu gwasanaeth i grwpiau lleiafrifol mewn cymunedau. Rhaid dangos gallu i gyfrannu at amgylchedd gwaith agored a theg lle ni chaniateir ymddygiad anaddas. Ni ddylent ddangos unrhyw dystiolaeth y byddant yn debygol o gyfrannu at unrhyw achos o fwlio yn y gweithle nac unrhyw fath arall o ymddygiad gwahaniaethol.

Rhaid i ddeiliad y swydd ddeall methodoleg a chyflwr Gweithredoedd unigolion a neilltuwyd ac a all arwain o unrhyw ranbarth yn y DU, er mwyn creu ac adolygu cysylltiadau yn gywir rhwng manylion a storwyd, adnabod cysylltiadau, cydberthyniadau ac anghysondebau. Gallai

hyn gynnwys cyfrannu at bolisïau OIMU a briffio cyfarfodydd ar draws y rhwydwaith CT i sicrhau y caiff y polisïau a'r gweithdrefnau cywir eu datblygu a'u rhoi ar waith.

Dull Asesu

Wrth gwblhau eich cais, sicrhewch eich bod yn cwblhau'r adrannau wedi'u marcio isod yn unig am mai'r rhain yw'r adrannau a fydd yn cael eu hystyried yng nghamau rhestr fer eich cais.

Cymwysterau	✔
Sgiliau	✔
Gwybodaeth	
Rhinwedd Bersonol – Gwasanaethu'r Cyhoedd	✔
Rhinwedd Bersonol - Proffesiynoldeb	✔
Rhinwedd Bersonol - Yn agored i newid	
Rhinwedd Bersonol - Cyflenwi Gwasanaethau	
Rhinwedd Bersonol - Gwneud Penderfyniadau	
Rhinwedd Bersonol – Gweithio gydag Eraill	✔